Taith – Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol Cymru ar gyfer Dysgu

Llwybr 1 2022 (Ail Alwad)

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn benodol ag **ail galwad ariannu** Llwybr 1 Taith 1 2022 , sydd **ar agor i'r sectorau Addysg Bellach (AB) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG)**.

Ceir gwybodaeth gyffredinol am raglen Taith, gan gynnwys nodau ac amcanion Taith, meini prawf cymhwysedd, y broses asesu, y gwaith rheoli prosiect a chyfraddau'r grantiau yng Nghanllaw'r Rhaglen Graidd (dolen). Fe gynghorir pob ymgeisydd yn gryf i ddarllen drwy Ganllaw'r Rhaglen Graidd yn ogystal â'r wybodaeth benodol am y Llwybr dan sylw a gynhwysir yn y ddogfen hon cyn cwblhau cais.

Cynnwys

Geirfa 3

1. Cyflwyniad i Lwybr 1 2022 (ail alwad) 6

2. Pwy all wneud cais ar gyfer/cymryd rhan yn Llwybr 1 2022 (ail alwad) 8

- 2.a. Sectorau cymwys 9
- 2.b. Cydgyfnewid 9

3. Gwneud cais ar gyfer Llwybr 1 2022 (ail alwad) 10

- 3.a. Amserlen 11
- 3.b. Cyn i chi wneud cais 11
- 3.c. Cyflwyno cais 12

4. Asesu 13

- 4.a. Asesu ceisiadau 14
- 4.b. Llwybr 1 Meini Prawf Asesu 15

5. Cymhwysedd - Gwybodaeth sector 17

- 5.a. Addysg Bellach (AB) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG) 18

6. Cyfraddau grant Llwybr 1 2022 (ail alwad) 25

Geirfa

Buddiolwr Pan gaiff ei gymeradwyo ar gyfer cyllid prosiect, daw'r sefydliad sy'n gwneud cais yn Fuddiolwr y cyllid grant ac mae'n gyfrifol am lofnodi'r cytundeb grant.

Consortiwm Dau neu ragor o sefydliadau sy'n cydweithio i ddatblygu a chyflawni prosiect neu weithgaredd o fewn prosiect.

Costau cymwys Swm y grant (sy'n seiliedig fel arfer ar gyfradd uned) sy'n gysylltiedig â chynnal gweithgareddau prosiect.

Cyfraddau grant Cyfraddau sefydlog sydd ar gael ar gyfer costau cymwys gwahanol.

Cyfranogwr Unigolyn sy'n ymgymryd â gweithgaredd cyfnewid rhyngwladol ffisegol/rhithwir neu gyfunol mewn prosiect a ariennir gan Taith.

Cyfranogwr difreintiedig Cyfranogwyr sy'n fyfyriwr neu'n berson ifanc sy'n cael eu hystyried dan anfantais yn unol ag un neu ragor o feini prawf Taith a byddant yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol. Gweler Atodiad 2 yng Nghanllaw'r Rhaglen am ragor o fanylion.

Cyllid dwbl Ariennir y costau ar gyfer yr un gweithgaredd ddwywaith drwy ddefnyddio arian cyhoeddus. Er eglurder, ni chaniateir hyn ac ystyrir ei fod yn torri telerau ac amodau'r Cytundeb Grant.

Cyllideb prosiect Cyfanswm yr arian a ddyrannwyd ar gyfer gweithgareddau y cytunwyd arnynt o fewn prosiect a ariennir gan Taith.

Cynhaliaeth Cyllid sydd ar gael i dalu costau byw, a all gynnwys llety, bwyd a thrafnidiaeth lleol, tra'n ymgymryd â gweithgaredd cyfnewid ffisegol.

Cynrychiolydd cyfreithiol Y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i gynrychioli sefydliad ac sydd â'r awdurdod cyfreithiol i ymrwymo i gontract cyfreithiol rwymol, gan gynnwys, yng nghyd-destun Taith, yr awdurdod i lofnodi Cytundeb Grant.

Cyrsiau a gweithgareddau hyfforddi Unrhyw weithgaredd sy'n anelu at ddatblygu cymwyseddau personol neu broffesiynol drwy raglen strwythuredig. Dylai'r rhaglen fanylu ar ganlyniadau dysgu bwriedig a dylai arbenigwyr a/neu hyfforddwyr cymwys eu cyflawni.

Cytundeb Grant Y cytundeb ysgrifenedig rhwng Taith a'r Buddiolwr yn manylu ar delerau ac amodau'r dyfarniad grant yn unol â'r ffurflen gais a fydd wedi'i hasesu'n annibynnol i fod yn gyllidadwy ac a fydd wedi'i chymeradwyo gan International Learning Exchange Programme Limited i gael ei chyllido.

Datblygiad proffesiynol Dysgu sy'n gwella galluoedd proffesiynol cyfranogwyr ac sy'n datblygu'r sgiliau a chymwyseddau proffesiynol a nodwyd. Mae cyfleoedd datblygu proffesiynol yn cynnwys, er enghraifft, cyrsiau hyfforddi strwythuredig, cysgodi swyddi, seminarau a chynadleddau.

Deilliannau dysgu Datganiadau o'r hyn y bydd dysgwr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud ar ôl cwblhau proses ddysgu (yn cynnwys gweithgarwch yn rhan o'r prosiect, cyfleoedd dysgu – gall y rhain fod yn ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol).

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais Y dyddiad a'r amser olaf y gellir cyflwyno'r holl ffurflenni cais er mwyn i dîm Taith eu hystyried a'u hasesu.

Dysgu anffurfiol Dysgu sy'n digwydd y tu allan i raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro ac nid oes cymorth dysgu yn bresennol. Cyfeirir atynt weithiau fel dysgu drwy brofiad neu achlysurol.

Dysgu diffurfiol Dysgu sy'n digwydd y tu allan i unrhyw raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro ond mae rhywfaint o gymorth dysgu yn bresennol.

Dysgu ffurfiol Unrhyw ddysgu sy'n digwydd yn rhan o raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro.

Galwad am geisiadau Y cyfnod o amser pryd y gellir cyflwyno ceisiadau am gyllid.

Grant Y cyllid a ddyfernir gan Taith i sefydliad sy'n gwneud cais llwyddiannus.

Gweithgaredd cymwys Gweithgaredd sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghanllaw Rhaglen Taith.

Mis Wrth gyfrifo swm y grantiau Taith, mae mis yn 28 diwrnod.

Partneriaeth Cytundeb ffurfiol rhwng dau neu ragor o sefydliadau i gymryd rhan mewn prosiect a ariennir gan Taith ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu ar y cyd.

Person cysylltiedig Oedolyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o staff y sefydliad sy'n gwneud cais, a fydd yn bresennol gyda'r cyfranogwyr mewn gweithgaredd cyfnewid ac yn cefnogi cyfranogwyr i sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl o'r gweithgareddau. Dylai grwpiau o gyfranogwyr fod yng nghwmni gweithiwr proffesiynol cymwys er budd cefnogi a hwyluso dysgu.

Prosiect Gweithgareddau wedi'u trefnu a'u cynllunio y cytunir arnynt er mwyn cyflawni amcanion a chanlyniadau clir.

Rhyngwladol Yng nghyd-destun Taith, unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Sefydliad sy'n gwneud cais Y sefydliad yng Nghymru sy'n cyflwyno cais am gyllid i Taith. Gall sefydliad sy'n gwneud cais wneud hynny naill ai'n unigol neu ar ran consortiwm, sy'n cynnwys sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.

Symudedd cyfunol Lleoliad sy'n digwydd yn gyfunol, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, yn defnyddio cyfnewid dysgu ar-lein cydweithredol/ trwy waith tîm.

Sefydliad cymwys Sefydliad sy'n gallu gwneud cais am gyllid Taith.

Sefydliad partner Term generig ar gyfer unrhyw sefydliad sy'n ymwneud yn ffurfiol â phrosiect a ariennir gan Taith, lle mae perthynas neu ryngweithio'n rhan o'r prosiect. Gall gynnwys y sefydliadau hynny a nodwyd fel sefydliad sy'n gwneud cais, cydlynydd, sefydliad sy'n derbyn neu sefydliad sy'n anfon yn ogystal ag eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect.

Sefydliadau sy'n anfon sydd wedi'u cofrestru ac sy'n gweithredu y tu allan i'r DU ac yn anfon cyfranogwyr i sefydliad lletyol yng Nghymru yn ystod gweithgareddau cyfnewid. Diffinnir sefydliadau anfon cymwys yn adrannau sector-benodol Canllaw'r Rhaglen.

Sefydliad sy'n derbyn Pan fydd unigolion neu grwpiau'n cymryd rhan mewn gweithgaredd cyfnewid wyneb yn wyneb drwy Taith, y sefydliad sy'n derbyn fydd eu sefydliad lletyol. Gellir cyfeirio at y sefydliad hwn yn aml fel lletywr neu bartner sefydliad rhyngwladol. Diffinnir sefydliadau derbyn cymwys yn adrannau sector-benodol Canllaw'r Rhaglen.

Staff Person sy'n cael ei gyflogi gan sefydliad sy'n gwneud cais, neu'n gweithio iddo, boed ar sail broffesiynol neu wirfoddol.

Symudedd allanol Cyfranogwyr o sefydliadau cymwys yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a gefnogir gan Taith mewn sefydliadau sy'n derbyn y tu allan i'r DU (neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru mewn sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU).

Symudedd corfforol Symud yn gorfforol i wlad ar wahân i'r wlad breswyl i gymryd rhan mewn gweithgarwch prosiect a/neu gyfle dysgu ffurfiol, diffurfiol neu anffurfiol.

Symudedd mewnol Cyfranogwyr o sefydliadau anfon cymwys sy'n dod i Gymru i gymryd rhan yn un o raglenni Taith.

Symudedd rhithwir Cymryd rhan mewn gweithgarwch prosiect ar-lein a/neu gyfle dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu anffurfiol, lle mae cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu gan ddefnyddio platfformau neu offer dysgu ar-lein a hynny mewn cydweithrediad ag o leiaf un sefydliad mewn gwlad arall. Dylai unrhyw gyfle dysgu rhithwir roi profiad dysgu rhyngwladol ystyrlon sydd â chanlyniadau dysgu y cytunir arnynt.

Teithio Gwyrdd Dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, h.y. teithio sy'n defnyddio dulliau trafnidiaeth ag allyriadau isel ar gyfer prif ran y daith. Er enghraifft, bysiau, trenau neu rannu ceir.

1. Cyflwyniad i Lwybr 1 2022 (ail alwad)

1. Cyflwyniad i Lwybr 1 2022 (ail alwad)

Mae Llwybr 1 yn cefnogi symudedd corfforol, rhithwir a chyfunol allanol a mewnol gan unigolion neu grwpiau o unigolion.

Mae astudio, gwirfoddoli neu fynd ar leoliad gwaith dramor yn ehangu gorwelion pobl, yn ehangu eu sgiliau, ac yn dod â buddion i gymunedau a sefydliadau yma yng Nghymru. Dangoswyd bod gweithgareddau cyfnewid rhyngwladol yn cael effeithiau hynod gadarnhaol ar ddeilliannau personol a phroffesiynol cyfranogwyr, gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau a phrofiad. Bydd cyfranogwyr hefyd yn llysgenhadon Cymru i'r byd, ac yn cyfleu'r neges bod Cymru'n edrych tuag allan, yn gydweithredol, ac yn agored i arloesi addysgol.

Ar gyfer yr alwad benodol hon, mae cyllid ar gael i ddysgwyr a staff yn y sectorau AB ac AHG i ymgymryd â symudedd rhyngwladol, yn y tymor byr a'r tymor hir, sy'n gyfleoedd i rannu dysgu, profi diwylliannau gwahanol a datblygu sgiliau newydd.

2. Pwy all wneud cais ar gyfer/ cymryd rhan yn Llwybr 1 2022 (ail alwad)

2. Pwy all wneud cais ar gyfer/cymryd rhan yn Llwybr 1 2022 (ail alwad)

Cewch hyd i feini prawf cymhwysedd ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais, sefydliadau derbyn a sefydliadau anfon ar gyfer y sectorau AB ac AHG yn adran cymhwysedd Canllawiau Craidd Rhaglen Taith. Cyn iddynt gyflwyno cais, cynghorir pob sefydliad sy'n ystyried gwneud cais i wirio eu bod yn gymwys i wneud hynny ac i gysylltu â thîm Taith os oes ganddynt unrhyw gwestiynau ynghylch hyn.

2.a. Sectorau cymwys

Mae'r ail alwad ar gyfer Llwybr 1 Taith 2022 yn agored i'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn unig.

Cewch wybodaeth am weithgareddau a chyfranogwyr cymwys, costau a hyd prosiectau yn adran 5.

2.b. Cydgyfnewid

Mae egwyddorion cydgyfnewid a dysgu ar y cyd yn ganolog i Taith. Gall sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid ar gyfer gweithgareddau cyfnewid allanol yn Llwybr 1 Taith wneud cais am gyllid ychwanegol ar gyfer symudedd mewnol i Gymru. Bydd hyn gyfwerth â 30% o'r cyllideb a ddyrennir i brosiect ar gyfer gweithgareddau cyfnewid allanol a bydd yn cael ei dalu ar ben y swm a neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau cyfnewid allanol. Ceir rhagor o fanylion am gyllid ar gyfer gweithgareddau cyfnewid mewnol ac ar beth y gellir gwario'r cyllid hwn yn yr adran cymhwysedd isod. Bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau cyfnewid mewnol yn cael ei gynnwys yn y dyfarniad grant i'r sefydliadau sy'n gwneud cais llwyddiannus yng Nghymru a'u cyfrifoldeb nhw fydd trosglwyddo'r cyllid dan sylw i'r sefydliad sy'n anfon.

3. Gwneud cais ar gyfer Llwybr 1 2022 (ail alwad)

3. Gwneud cais ar gyfer Llwybr 1 2022 (ail alwad)

3.a. Amserlen

- **5 Hydref 2022:** Agor galwad cyllid Llwybr 1 (ail alwad 2022).
- **1 Rhagfyr 2022, 12pm:** Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hasesu.
- **Chwefror 2023:** Anfon hysbysiad canlyniad i bob un o'r sefydliadau sy'n gwneud cais.

3.b. Cyn i chi wneud cais

Cyn iddynt ddechrau eu ceisiadau, argymhellir bod ymgeiswyr yn:

- Darllen Canllawiau Craidd y Rhaglen.
- Gwirio bod eich sefydliad yn gymwys.
- Darllen y canllawiau hyn yn drylwyr, yn enwedig y wybodaeth sy'n benodol i'r sector ynghylch gweithgareddau cymwys, hyd, cyfranogwyr a chostau.
- Gwirio bod gan eich sefydliad ddigon o gapasiti yn ariannol ac o ran gweithredu.
- Ymgyfarwyddo â meini prawf asesu Llwybr 1 – yn adran 4.2.
- Dod i'r digwyddiadau a'r tiwtorialau ar gwblhau cais ac yn darllen drwy adnoddau Llwybr 1.

3.c. Cyflwyno cais

I wneud cais am gyllid ar gyfer Llwybr 1 Taith 2022 (ail alwad), mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais ddefnyddio ffurflen gais Llwybr 1 a'r adnodd cyfrifo grant sydd ar gael trwy wefan Taith.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am atebion naratif i ystod o gwestiynau gan gynnwys trosolwg o'r prosiect, manylion am y gweithgareddau arfaethedig fydd yn rhan o'r prosiect, manylion dulliau rheoli'r prosiect a'r cyllid, a manylion sy'n nodi ym mha ffyrdd mae'r prosiect yn cyd-fynd ag amcanion rhaglen Taith.

Ynghyd â chwblhau'r ffurflen gais, bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n gwneud cais gwblhau'r offeryn cyfrifo grant. Bydd yr offeryn hwn yn cyfrifo cyfanswm y grant y gwneir cais amdano yn seiliedig ar yr amrywiol weithgareddau y gwneir cais amdanynt. Ceir gwybodaeth am y cyfraddau grant ar gyfer pob Llwybr yn Atodiad 3 Canllaw'r Rhaglen Graidd.

Yn rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen i sefydliadau sy'n gwneud cais gadarnhau a ydynt am wneud cais am gyllid ar gyfer symudedd mewnol. Yna bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer hyn yn cael ei gyfrifo'n awtomatig drwy'r adnodd cyfrifo grant.

Asesir ceisiadau yn erbyn y meini prawf asesu ar gyfer Llwybr 1 – yn adran 4.2. Argymhellir bod sefydliadau sy'n gwneud cais yn darllen drwy'r meini prawf asesu yn drylwyr cyn dechrau'r cais fel eich bod yn glir ynghylch yr hyn y mae'r cais yn gofyn amdano, a sut y caiff ei asesu.

Mae amrywiaeth o adnoddau ar wefan Taith sydd wedi'u creu i gefnogi sefydliadau gyda'u cais. Mae'r rhain yn cynnwys y cwestiynau ansoddol a'r meini prawf asesu, canllawiau cam wrth gam ynghylch gwneud cais a gwybodaeth wedi'i recordio ymlaen llaw ynghylch llenwi'r ffurflen gais.

Anogir pob ymgeisydd i gwblhau'r adrannau cais ansoddol all-lein, ac yna eu copïo a'u gludo i'r ffurflen gais ar-lein. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio drwy'r adrannau wrth eu pwysau, heb y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar-lein. Pan fyddant wedi llenwi'r ffurflen gais all-lein, gallant gopïo'r cynnwys, ei ludo yn y mannau perthnasol ar-lein a chyflwyno'r cais.

Dim ond un cais y gall sefydliadau ei gyflwyno. Dylai ymgeiswyr sicrhau nad oes mwy nag un cais am yr un alwad am geisiadau ar gyfer Llwybr penodol yn cael eu cyflwyno gan wahanol bartïon yn yr un sefydliad.

4. Asesu

4. Asesu

Cewch wybodaeth fanwl am broses asesu Taith a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch cyllid yn adran 6 Canllawiau Craidd y Rhaglen

4.a. Asesu ceisiadau

bodloni meini prawf asesu Llwybr 1 (gweler isod). Bwriad y meini prawf yw galluogi Taith i werthuso ansawdd y ceisiadau sy'n dod i law a rhoi sgôr gyffredinol i bob cais. Bydd pob cais yn cael ei sgorio allan o uchafswm o 100, yn seiliedig ar y meini prawf a'r pwysoliadau isod.

Er mwyn i sefydliadau gael eu hystyried yn gymwys i'w cyllido, mae'n rhaid iddynt:

- Sgorio o leiaf 60 allan o gyfanswm o 100 ac
- Mae'n rhaid i o leiaf hanner y cyfanswm pwyntiau fod wedi'u hennill yn yr adran 'Perthnasedd ac ansawdd amcanion prosiect a chynlluniau cyflawni'.

Bydd sefydliadau sy'n llwyddo i wneud yr uchod yn cael eu hystyried yn rhai y gellid eu cyllido. Bydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy o ran meini prawf ansawdd yn cael eu hystyried yn aflwyddiannus. Rhoddir adborth ynghylch pob cais.

Dyraniadau cyllid

Mae cynwysoldeb a hygyrchedd yn ffocws strategol ar gyfer Taith ac mae'r rhaglen yn edrych i ariannu ystod mor eang â phosibl o sefydliadau, a chymaint ohonynt a sydd bosib. O'r herwydd, ni fydd unrhyw sefydliad yn gallu derbyn mwy na 40% o gyllideb y sector a gyhoeddwyd.

Bydd Taith yn anelu at ariannu'r holl sefydliadau sy'n pasio'r broses asesu ac yr ystyrir eu bod yn gyllidadwy. Fodd bynnag, mae cyllid Taith yn gyfyngedig ac mae'n debygol y ceir galwadau am geisiadau lle bydd gwerth y ceisiadau llwyddiannus sy'n 'gymwys i'w cyllido' yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael i'w dyrannu. Lle nad oes digon o gyllideb i gyllido'r holl geisiadau yn llawn, gall Taith gymryd camau i leihau'r cyllid ar draws sefydliadau llwyddiannus ar sail deg a thryloyw.

Mae cyllidebau enghreifftiol ar gyfer pob sector i'w gweld yn adran 5.

4.b. Llwybr 1 Meini Prawf Asesu

Perthnasedd ac ansawdd amcanion a chynlluniau cyflawni'r prosiect *(hyd at 40 o bwyntiau)*	Meini prawf ar gyfer Llwybr 1 – Symudedd cyfranogwyr • Mae'r prosiect yn berthnasol i nodau ac amcanion Taith (Llwybr 1), ac mae'r gweithgareddau arfaethedig o werth i'r sefydliad sy'n gwneud cais. • Mae'r graddau y mae'r prosiect yn diwallu anghenion a nodwyd ymhlith unigolion sy'n cael eu targedu wedi'u dangos mewn ffordd glir a phendant. • Mae perthnasedd a manteision cyflawni'r prosiect drwy gonsortiwm wedi'u dangos yn glir (ar gyfer ceisiadau gan gonsortia). • Mae'r sefydliadau partner dramor a nodwyd yn y cais yn briodol ac yn berthnasol i'r gweithgareddau arfaethedig a'r canlyniadau yr hoffai'r sefydliad eu gweld, ac mae'r rhesymau dros ddewis y gwledydd yn glir. Mewn achosion lle nad yw sefydliadau partner dramor wedi'u nodi, mae'r cynlluniau ar gyfer eu nodi ac ymgysylltu â nhw'n ystyriol ac yn briodol. • O ran symudedd i mewn i Gymru, mae dulliau arfaethedig o reoli'r rhain yn ystyriol, yn briodol ac yn amlwg yn ychwanegu gwerth at y prosiect. • Mae'r sefydliad/consortiwm sy'n gwneud cais wedi dangos tystiolaeth bod ganddo ddigon o gapasiti gweinyddol o ystyried maint y prosiect arfaethedig. Mae wedi dangos dulliau ystyriol a phriodol o reoli'r prosiect o ddydd i ddydd, rheoli cyllid, rheoli symudedd a rhoi cymorth i'r unigolion. • Mae dulliau arfaethedig o fonitro gweithgareddau a chynnydd y prosiect, gan gynnwys casglu a defnyddio adborth yr unigolion, a chynlluniau i werthuso canlyniadau ar bob lefel yn gynhwysol ac yn realistig. • Caiff prosesau priodol eu cynnwys yn y cais ar gyfer nodi a rheoli risgiau (ac amgylchiadau eithriadol) wrth gyflawni'r prosiect.
Ansawdd ac amcanion gweithgareddau arfaethedig (hyd at 35 o bwyntiau)	• Mae'r gweithgareddau arfaethedig wedi'u nodi a'u diffinio'n glir, ac maent yn diwallu anghenion a nodwyd. • O ran cyflawni amcanion y prosiect, mae'r gweithgareddau arfaethedig yn realistig. Nodwyd cynllun clir ac amserlen ar gyfer yr holl weithgareddau. • Rhoddwyd esboniad clir o'r hyn sydd ynghlwm wrth bob gweithgaredd arfaethedig a rhesymau dros y cydbwysedd rhwng y mathau gwahanol o weithgareddau. • Mae'r sefydliad wedi dangos i ba raddau y mae'r gweithgareddau arfaethedig yn rhai newydd neu'n ategu ei arferion presennol, neu os yw'n adeiladu ar arferion presennol, wedi dangos ymagwedd arloesol ac ymrwymiad i welliant parhaus. • Dangoswyd i ba raddau y bydd y gweithgareddau arfaethedig yn sicrhau deilliannau dysgu o ansawdd uchel i unigolion.

	• Nodwyd yn glir pa unigolion y mae pob un o'r gweithgareddau arfaethedig yn eu targedu. Nodwyd prosesau priodol a chynhwysol ar gyfer helpu'r unigolion i gyfranogi, a hynny mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i wireddu potensial llawn y profiad. • Esboniwyd yn glir beth yw priod rolau pob sefydliad (y sefydliad sy'n gwneud cais a'r sefydliad(au) a fydd yn derbyn yr unigolion) yn rhan o bob gweithgaredd arfaethedig, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gweithgareddau cyfnewid i mewn i Gymru, yn ôl yr angen. • Esboniwyd pa gamau a gaiff eu cymryd i helpu i baratoi'r unigolion cyn y gweithgareddau arfaethedig a pha gymorth a gaiff ei roi yn ystod ac ar ôl y gweithgareddau hynny.
Cyflawni ymrwymiadau trawsbynciol Taith *(hyd at 25 o bwyntiau)*	I ba raddau: • Nodwyd dulliau clir o gyfathrebu a dulliau priodol o hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y prosiect i unigolion, gan gynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. • Mae'r sefydliad sy'n gwneud cais wedi diffinio'n glir pa grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'n eu targedu. Mae wedi rhoi gwybodaeth am y rhwystrau a nodwyd o ran ehangu cyfranogiad ymhlith y grwpiau hynny ac wedi amlinellu camau priodol i oresgyn y rhwystrau hyn. • Nodwyd ymrwymiad a chynlluniau clir i helpu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig yn benodol i gyfranogi. • Mae'r sefydliad wedi dangos y bydd yn cymryd camau diogelu / gofalu priodol yn rhan o'r holl weithgareddau arfaethedig, ac mae ganddo gynllun ystyriol a phriodol i sicrhau y bydd pob unigolyn yn cael ei gefnogi. • Nodwyd dulliau amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol o gyflawni'r prosiect, gan gynnwys cynlluniau clir a diriaethol i sicrhau teithio cynaliadwy. • Nodwyd dulliau clir ac effeithiol o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan o'r gweithgareddau arfaethedig, gan gynnwys dulliau o godi proffil Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang.

5. Cymhwysedd - Gwybodaeth sector

Mae'r adran hon yn manylu ar yr holl wybodaeth ynghylch gweithgareddau cymwys, hyd, cyfranogwyr a chostau fesul sector.

5.a. Addysg Bellach (AB) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG)

Trosolwg

Mae Taith yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr a staff, sy'n gysylltiedig â sefydliadau sy'n darparu addysg bellach (AB) ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol (AHG) yng Nghymru, gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfnewid tramor sy'n drawsnewidiol ac yn newid bywydau. Mae tystiolaeth yn cadarnhau bod profiadau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar gynnydd personol pobl mewn bywyd, ac ar eu dysgu a'u rhagolygon cyflogadwyedd, yn enwedig y cyfranogwyr hynny sydd o gefndir ehangu mynediad.

Mae gweithgareddau cyfnewid rhyngwladol yn golygu bod y sawl sy'n cymryd rhan yn gallu datblygu sgiliau bywyd a chymwyseddau allweddol a phrofi diwylliannau ac ieithoedd newydd tra'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ledled y byd ar yr un pryd. Bydd Taith yn cynnig cyllid a chymorth i sefydliadau sy'n darparu AB ac AHG ledled Cymru, er mwyn iddynt ymgorffori profiadau rhyngwladol i gwricwla a rhaglenni datblygu staff. Rhoddir ffocws penodol i'r rhai sydd heb brofiad o gwbl, neu'r rhai sydd â phrofiad cyfyngedig o weithgareddau cyfnewid rhyngwladol, a'r rhai sy'n cefnogi dysgwyr sy'n cael eu tangynrychioli yn y maes.

Cyllideb enghreifftiol

£1,053,741.06 yw cyfanswm y swm arfaethedig a ddyrennir i'r sector AB/AHG yn yr ail alwad am geisiadau ar gyfer Llwybr 1 2022.

Hyd y prosiect ar gyfer y sector AB a AHG o ran gweithgareddau cyfnewid dysgwyr a staff yw:

- 12 mis
- 24 mis
- 36 mis

Gweithgareddau Cyfnewid i Ddysgwyr

Mae gwybodaeth am sefydliadau sy'n gymwys i wneud cais i fod yn sefydliad sy'n derbyn i'w chael yn yr adran cymhwysedd yng Nghanllaw Rhaglen Graidd Taith.

Cyfranogwyr cymwys:

- Dysgwyr AB sy'n ymwneud â gweithgareddau dysgu ac wedi cofrestru ar raglen achrededig mewn coleg AB cymwys.
- Dysgwyr AHG sy'n ymwneud â gweithgareddau dysgu neu hyfforddi ac wedi cofrestru gyda darparwr AHG;
- Aelodau o staff mewn coleg AB cymwys neu gyda darparwr AHG a fydd yn bersonau cysylltiedig ar gyfer dysgwyr.

Gweithgareddau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys:

1. Gweithgareddau Cyfnewid i Grwpiau

Cweithgareddau cyfnewid ar gyfer dysgwyr, sy'n cael eu harwain gan goleg AB neu ddarparwr AHG sy'n hwyluso gweithgareddau grŵp. Fel arfer, mae gweithgareddau o'r fath yn canolbwyntio ar brofiadau dysgu ffurfiol, diffurfiol ac anffurfiol; cyfleoedd hyfforddi; a phrofiadau gwaith a bydd ganddynt ganlyniadau dysgu y cytunir arnynt.

Gan amlaf, bydd staff o'r sefydliad sy'n gwneud cais yn mynd gyda'r dysgwyr am ran, neu drwy gydol y gweithgaredd rhyngwladol, ac yn arwain y broses ddysgu. Os oes angen, gall oedolion eraill hefyd fod yn bersonau cysylltiedig i gefnogi'r aelod o staff neu ddysgwyr penodol.

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- **Profiadau dysgu:** wedi'u cynllunio i ehangu profiad a gwybodaeth grwpiau o ddysgwyr, sy'n cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol neu anffurfiol a chyfnewid rhwng cymheiriaid a drefnir drwy'r sefydliad sy'n derbyn.
- **Dysgu neu brofiadau seiliedig ar waith:** wedi'u cynllunio i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ehangu eu gwybodaeth a'u profiad o amgylcheddau gwaith, drwy dreulio amser mewn amgylchedd gwaith dramor. Gallai profiadau o'r fath gynnwys profiadau ymarferol o weithio, yn dibynnu ar reoliadau fisa, neu arsylwadau mewn gweithle, a drefnir gan y sefydliad sy'n derbyn. Bydd y profiadau hefyd yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio.
- **Profiad teithio rhagarweiniol:** Er bod yr agwedd ryngwladol ar weithgareddau cyfnewid i grwpiau yn ganolog, mewn rhai achosion efallai na theimlir bod hyn yn gyraeddadwy ar unwaith ond y gellid adeiladu tuag at hynny drwy gamau paratoadol. Mewn amgylchiadau lle na fyddai dysgwyr fel arall yn gallu ymgysylltu â gweithgareddau cyfnewid rhyngwladol, efallai y bydd gweithgareddau cyfnewid rhagarweiniol byr yn y DU yn bosibl. Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais nodi'n glir yn eu ceisiadau pam bod gweithgareddau cyfnewid rhagarweiniol yn y DU yn hanfodol er mwyn galluogi eu dysgwyr i ymgysylltu â gweithgareddau cyfnewid rhyngwladol

Hyd:

- Isafswm o 5 diwrnod – uchafswm o 1 mis.
- Ar gyfer gweithgareddau cyfnewid rhagarweiniol yn y DU (y tu allan i Gymru): Isafswm o 3 diwrnod – uchafswm o 5 diwrnod.

Costau cymwys: (gweler Atodiad 3 Canllaw'r Rhaglen Graidd – Cyfraddau grant a chostau cymwys - dolen):

Dysgwyr:

- Grant at ddibenion cynhaliaeth.
- Grant teithio, yn dibynnu ar bellter, gan gynnwys 'ad-daliadau gwyrdd' ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau eithriadol ar gyfer teithio o/i ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio e.e. fisâu, pasbortau, yswiriant teithio, bagiau (lle bo angen) ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.
- 100% o'r costau gwirioneddol o ran cynhwysiant a nodwyd ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Person cysylltiedig (staff neu eraill):

- Grant at ddibenion cynhaliaeth.
- Grant teithio, gan gynnwys 'ychwanegiad gwyrdd' ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau eithriadol ar gyfer teithio o/i ardal anghysbell hefyd yn bosibl.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer oedolion sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Bydd y sefydliad(au) sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr allanol (a mewnol).

2. Gweithgareddau cyfnewid cyfunol i grwpiau

Cymysgedd o brofiad rhithwir (pan gaiff ei leoli yng Nghymru) ynghyd â gweithgareddau cyfnewid rhyngwladol corfforol, a gynigir mewn partneriaeth â phartner rhyngwladol, boed yn ddarparwr addysgol, yn gyflogwr neu'n sefydliad rhyngwladol arall. Gall rhaglenni cyfunol ar gyfer dysgwyr AB a AHG fod ar ffurf dysgu ffurfiol, diffurfiol neu anffurfiol.

Nod rhaglenni cyfunol yw ategu symudedd corfforol dramor, drwy barhau i gydweithio a dysgu drwy weithgareddau rhithwir ac ymgysylltu. Mae rhaglenni cyfunol ar gael i bob dysgwr perthnasol ond gallent fod yn arbennig o effeithiol i fagu hyder ymhlith y rhai nad ydynt wedi bod dramor o'r blaen.

Dylid cynllunio'r elfen rithwir i gyflwyno, ategu neu barhau â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r symudedd corfforol rhyngwladol. Dylai'r elfen rhithiwr ddod â'r dysgwyr at ei gilydd ar-lein i weithio ar y cyd ac ar yr un pryd ar aseiniadau penodol sydd wedi'u hintegreiddio yn y rhaglen ddwys gyfunol ac sy'n cyfrif tuag at y canlyniadau dysgu cyffredinol (gweler yr adran isod ar symudedd rhithwir i gael rhagor o wybodaeth).

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Cyfuniad o ddysgu ar-lein a hwyluso trafodaethau rhwng dysgwyr neu rhwng dysgwyr a staff o sefydliadau mewn gwahanol wledydd.
- Rhaglenni pwrpasol wedi'u cynllunio i hwyluso ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol, dysgu a datblygu sy'n cynnwys cydweithio rhwng dysgwyr a staff o sefydliadau mewn gwahanol wledydd.
- Cyfnewidfeydd corfforol sy'n gysylltiedig â'r profiadau dysgu rhithwir, i gynnwys gweithgareddau dysgu (gweithgareddau grŵp o bosibl), gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau drwy brofiad.

Hyd

- O leiaf 3 diwrnod o symudedd corfforol gydag o leiaf 20 awr o weithgareddau rhithwir (naill ai wrth baratoi, ar ôl dychwelyd i Gymru, neu wedi'u rhannu cyn ac ar ôl y symudedd rhyngwladol).
- Hyd at ddwy wythnos o symudedd corfforol.
- Dim uchafswm o oriau ar gyfer gweithgareddau rhithwir.

Costau cymwys (gweler Atodiad 3 – Cyfraddau grant a chostau cymwys):

Dysgwyr:

- Grant at ddibenion cynhaliaeth yn ystod agwedd ffigorfforol y gweithgaredd cyfnewid.
- Grant teithio, gan gynnwys 'ychwanegiad gwyrdd' ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau eithriadol ar gyfer teithio i/o ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio e.e. fisâu, pasportau, yswiriant teithio, bagiau (lle bo angen) ar gyfer dysgwyr sydd o gefndiroedd difreintiedig.
- 100% o'r costau gwirioneddol o ran cynhwysiant a nodwyd ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Person cysylltiedig (staff neu eraill):

- Grant at ddibenion teithio a chynhaliaeth.
- Grant teithio, gan gynnwys 'ychwanegiad gwyrdd' ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau eithriadol ar gyfer teithio o/i ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer pobl cysylltiedig sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Bydd y sefydliad(au) a wnaeth gais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr corfforol allanol (a mewnol).

3. Gweithgareddau Cyfnewid i Unigolion

Caiff gweithgareddau cyfnewid i unigolion eu creu yn seiliedig ar gyfleoedd pwrpasol ar gyfer dysgwyr unigol er mwyn iddynt ymgymryd â chyfnod o gyfnewid dysgu rhyngwladol yn annibynnol. Rhaid diffinio rhaglen ddysgu unigol ar gyfer pob dysgwr a rhaid rhoi hyfforddiant gorfodol cyn gadael a rhaid gwneud trefniadau gyda sefydliad derbyn perthnasol.

Gallai gweithgareddau gynnwys: Gweithgareddau cyfnewid unigol academaidd, neu ar gyfer hyfforddeiaeth neu wirfoddoli i ddysgwyr sy'n oedolion astudio, gwirfoddoli neu hyfforddi mewn sefydliad neu sefydliad dramor.

Ni fyddai staff o'r sefydliad sy'n gwneud cais fel arfer yn mynd gyda'r dysgwr/dysgwyr.

Hyd:

- Isafswm o bythefnos – uchafswm o 12 mis.

Costau cymwys: (gweler Atodiad 3 – Cyfraddau grant a chostau cymwys):

Dysgwyr:

- Grant at ddibenion cynhaliaeth.
- Grant teithio, gan gynnwys 'ychwanegiad gwyrdd' ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau eithriadol ar gyfer teithio o/i ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio e.e. fisâu, pasbortau, yswiriant teithio, bagiau (lle bo angen) ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
- 100% o'r costau gwirioneddol o ran cynhwysiant a nodwyd ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Bydd y sefydliad(au) a wnaeth gais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr allanol (a mewnol).

4. Cyfnewidiadau Rhithwir Grwpiau:

Cyfnewid rhithwir ar gyfer dysgwyr AB a AHG, lle na fyddai symudedd corfforol neu deithio yn bosib/ ymarferol ar gyfer y cyfranogwyr dan sylw. Er nad yw prosiectau rhithwir yn disodli manteision symudedd corfforol, dylai cyfranogwyr sy'n ymwneud â chyfnewidiadau rhithwir elwa ar rai o fanteision cyfnewidfeydd addysgol rhyngwladol a gallant arwain at symudedd corfforol yn y dyfodol.

Ni ddylid defnyddio cyfnewidfeydd rhithwir ar gyfer y cyfranogwyr hynny y mae angen cymorth a chyllid ychwanegol arnynt i ymgymryd â gweithgaredd cyfnewid corfforol. Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais fod yn glir yn eu ceisiadau ynghylch pam mai gweithgareddau cyfnewid cwbl rithwir yw'r unig fformat sy'n addas i'w disgyblion.

Gweithgareddau Enghreifftiol:

- Cyfuniad o ddysgu ar-lein a thrafodaethau ar-lein wedi'u hwyluso rhwng dysgwyr AB/AHG neu rhwng dysgwyr a staff o sefydliadau mewn gwahanol wledydd.
- Prosiectau grŵp sy'n cynnwys dysgwyr o Gymru a'r partner rhyngwladol.
- Rhaglenni pwrpasol wedi'u cynllunio i hwyluso ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol a dysgu a datblygu trwy gydweithio rhwng dysgwyr sy'n oedolion a hefyd staff o sefydliadau mewn gwahanol wledydd.

Hyd

- O leiaf 35 awr o ymgysylltu rhithwir.

Costau cymwys (gweler Atodiad 3 – Cyfraddau grant a chostau cymwys):

Costau datblygu lleoliadau cyfnewid rhithwir:

Cyfraniad tuag at y gost o ddatblygu a chynnal cyfnewidiadau rhithwir o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfraniad at ffioedd cyrsiau lle mae cyfnewidiadau rhithwir yn cael eu hwyluso gan ddarparwr trydydd parti. 100% o'r costau gwirioneddol a hyd at £1,200 fesul prosiect/Cytundeb Grant.

Bydd y sefydliad(au) sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer hyd at 20 o gyfranogwyr fesul prosiect/Cytundeb Grant sy'n cwblhau'r isafswm o 35 awr o ymgysylltu rhithwir. Anogir cyfranogwyr ychwanegol yn gryf ond ni fydd hyn yn denu cymorth sefydliadol ychwanegol.

Gweithgareddau Cyfnewid i Staff:

Cyfranogwyr cymwys:

- Staff sy'n ymwneud â darparu AB a AHG a hyfforddiant cysylltiedig, ac sy'n cael eu cyflogi gan y darparwr addysg neu'r darparwr hyfforddiant sy'n cymryd rhan.
- Aelodau eraill o staff a gyflogir gan ddarparwr AB ac AHG cymwys sy'n cymryd rhan.

Gweithgareddau ar gyfer staff cymwys:

1. Datblygiad proffesiynol a gweithgarwch sy'n ymwneud â phartneriaethau sefydledig

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- **Cydweithio â chydweithwyr mewn sefydliad partner neu gynnig gweithgareddau hyfforddi neu hwyluso:** Cyllid i staff dreulio cyfnod yn ymgymryd â hyfforddiant, addysgu neu'n hwyluso gweithgareddau mewn sefydliad partner dramor. Gall lleoliadau hyfforddi gynnwys: rhoi hyfforddiant ar gyfer datblygu'r sefydliad partner; cysgodi swyddi; cydweithio â staff academaidd mewn sefydliadau partner; cydweithio neu gynllunio gydag aelodau staff anacademaidd. Gallai ymweliadau i wella gwaith partneriaeth gynnwys gwaith ar ddatblygu, cefnogi, gwella, rheoli neu adolygu gwaith partneriaeth. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys trefniant cyfatebol i gydweithwyr rhyngwladol ymweld â Chymru.

- **Cyfnewid gwybodaeth neu nodi arfer gorau:** Cyllid i gyfranogwyr dreulio cyfnod mewn sefydliad dramor gyda'r nod o ddysgu arferion newydd a chasglu syniadau newydd drwy arsylwi, cyfnewid gwybodaeth a rhyngweithio â chyfoedion, arbenigwyr neu ymarferwyr eraill yn eu gwaith bob dydd. Yn yr un modd, symudedd rhyngwladol i nodi arfer gorau mewn maes, disgyblaeth neu wrth ddarparu addysg bellach ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Mae gweithgareddau o'r fath yn gyfle i staff mwy profiadol nodi arferion sydd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru a allai arwain at gyflwyno dulliau newydd ac arloesol neu atebion ymarferol i heriau a rennir. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys trefniant cyfatebol i gydweithwyr rhyngwladol ymweld â Chymru. Lle y bo'n berthnasol, gellid rhannu canlyniadau ymweliadau o'r fath ar draws y sectorau yn arddangosiad o arfer gorau.
- **Gweithgaredd yn ymwneud â datblygiad proffesiynol neu ehangu gwybodaeth:** Cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol personol er mwyn i staff gael mynediad at gwrs strwythuredig neu fath tebyg o hyfforddiant sy'n seiliedig ar raglen ddysgu â chanlyniadau dysgu a ddiffiniwyd ymlaen llaw ac a ddarperir gan weithwyr proffesiynol cymwysedig; neu i dreulio cyfnod o amser yn derbyn hyfforddiant ar bynciau perthnasol. Rhaid i'r cyfnod a dreulir dramor i fynychu cwrs hyfforddi adlewyrchu hyd y digwyddiad dan sylw, oni bai ei fod wedi'i gyfuno â gweithgareddau eraill megis cysgodi swyddi neu ddatblygu partneriaethau.

Hyd

- O leiaf 2 ddiwrnod – uchafswm o 1 mis.

Costau cymwys (gweler Atodiad 3 – Cyfraddau grant a chostau cymwys):

- Grant at ddibenion cynhaliaeth.
- Grant teithio, gan gynnwys 'ychwanegiad gwyrdd' ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau eithriadol ar gyfer teithio o/i ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- Cyfraniad at ffïoedd cyrsiau hyd at uchafswm o £40 y cyfranogwr y dydd ac uchafswm o £400 yr un cyfranogwr fesul prosiect/Cytundeb Grant.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer staff sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Bydd y sefydliad(au) sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr allanol (a mewnol).

Costau anghymwys:

- Ffïoedd ar gyfer cynadleddau neu deithio i gynadleddau rhyngwladol.

2. Ymweliadau paratoadol

Cyllid i staff sydd â phrofiad priodol i dreulio cyfnod gyda phartner newydd posibl dramor i ddatblygu trafodaethau cychwynnol ymhellach gan arwain at sefydlu partneriaeth newydd. Gall ymweliadau gynnwys: trafodaethau ar faterion cyfreithiol/ariannol; trafodaethau am feysydd pwnc posibl; adolygu cyfleusterau; adolygu strwythurau cymorth ar gyfer dysgwyr; ymweld â phartneriaid cysylltiedig e.e. cyflogwyr a allai gynnig cyfleoedd lleoliad; cyfarfodydd gyda staff gwasanaethau proffesiynol; asesu llety ar gyfer dysgwyr; cydweithio neu gynllunio gydag aelodau staff gwasanaethau proffesiynol. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys trefniant cyfatebol i gydweithwyr rhyngwladol ymweld â Chymru.

Hyd

- O leiaf 2 ddiwrnod – uchafswm o 1 wythnos.

Costau cymwys (gweler Atodiad 3 – Cyfraddau grant a chostau cymwys):

- Grant at ddibenion cynhaliaeth.
- Grant teithio, gan gynnwys 'ychwanegiad gwyrdd' ar gyfer opsiynau teithio gwyrddach. Bydd costau eithriadol ar gyfer teithio o/i ardal anghysbell hefyd yn cael eu hystyried.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer staff sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.
- Bydd y rhaglen yn ariannu hyd at uchafswm o 3 ymweliad paratoadol fesul sefydliad sy'n gwneud cais fesul prosiect/Cytundeb Grant.

Ni fydd y gweithgaredd hwn yn cynhyrchu taliadau cymorth sefydliadol.

Costau anghymwys o ran staff:

Ffioedd ar gyfer cynadleddau neu deithio i gynadleddau rhyngwladol.

Symudedd Mewnol

Mae gwybodaeth am sefydliadau anfon cymwys i'w chael yn yr adran cymhwysedd yng Nghanllawiau Craidd Rhaglen Taith

Cyfranogwyr cymwys:

Dysgwyr:

- Dysgwyr sydd wedi ymrestru/cofrestru gyda sefydliad cymwys ac yn dilyn cwrs ym maes AB neu AHG.

Staff:

- Staff sy'n gweithio ym maes AB neu AHG, sydd â chontract cyflogaeth gyda sefydliad anfon cymwys;
- Rhaid i staff fod yn 18 oed o leiaf.

Yn benodol ar gyfer lleoliadau hyfforddi/hwyluso yng Nghymru:

- Staff â phrofiad priodol sy'n gweithio ym maes addysg bellach neu alwedigaethol ac yn meddu ar gymhwyster perthnasol lle bo'n briodol.

Gweithgareddau cymwys:

Mae'r holl weithgareddau a ddiffinnir yn weithgareddau cymwys ar gyfer symudedd allanol hefyd yn gymwys at ddibenion symudedd mewnol, oni nodir fel arall yn y disgrifiad o'r gweithgaredd.

Mae angen i'r sefydliad sy'n gwneud cais gael hepgoriadau ffioedd dysgu ar gyfer symudedd allanol a mewnol, lle byddai cyfranogwyr fel arall yn atebol i dalu ffioedd dysgu.

Costau a thaliadau cymwys

Mae cyfranogwyr ar weithgareddau cyfnewid mewnol yn gymwys i gael cyllid grant ar gyfer teithio a chynhaliaeth ar gyfer eu gweithgareddau cyfnewid i Gymru, ar yr un lefel â'r cyfraddau a ddiffinnir ar gyfer y gweithgareddau cyfnewid allanol cyfatebol. Telir y cyllid i'r sefydliad o Gymru a wnaeth y cais llwyddiannus, er mwyn iddo'i drosglwyddo'n briodol i'r sefydliad partner (anfon).

Bydd disgwyl i'r sefydliad yng Nghymru a wnaeth y cais llwyddiannus, ac yntau'n fuddiolwr Taith a'r un sy'n croesawu'r cyfranogwyr mewnol, gyfleu telerau unrhyw gyfraniadau sydd i'w gwneud yn glir ac i nodi faint o gymorth ariannol a ddyrennir i'r cyfranogwr/cyfranogwyr mewnol.

Ni chaiff taliadau i gyfranogwr mewnol fod yn uwch na chyfradd grant gyfatebol cyfranogwr allanol o Gymru i wlad Grŵp 1 am yr un cyfnod a math o weithgarwch cyfnewid.

Bydd y sefydliad yng Nghymru a wnaeth y cais llwyddiannus, ac yntau'n Fuddiolwr Taith, yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr mewnol i Gymru.

6. Cyfraddau grant Llwybr 1 2022 (ail alwad)

Bydd cyllid Taith yn cael ei ddyfarnu ar ffurf grant. Cyfrifir grantiau gan ddefnyddio cyfraddau grant penodol ar gyfer amrywiol gostau cymwys. Yn rhan o'r broses gwneud cais, bydd gofyn i sefydliadau gwblhau offeryn cyfrifo grant. Bydd gwybodaeth megis gweithgaredd, gwlad, hyd a nifer y cyfranogwyr yn cael eu mewnbynnu i'r offeryn a bydd hwnnw'n cyfrifo swm y grant y gellir gwneud cais amdano yn awtomatig.

Bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu'n bennaf ar sail cyfraddau grant sy'n cyfrannu at gostau teithio a chostau byw pob cyfranogwr, yn seiliedig ar hyd symudedd a'r wlad dan sylw. Bydd cymorth ariannol ychwanegol hefyd yn cael ei roi i gyfranogwyr sy'n wynebu amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys rhoi cymorth ychwanegol i gyfranogwyr difreintiedig a'r sawl sydd ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol. Bydd cyllid hefyd yn galluogi sefydliadau i dalu costau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau.

Categori cyllidebol	**AB ac AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfraddau ar gyfer y sector ADDYSG UWCH (£)**	**Disgrifiad o'r categori**
CYMORTH I SEFYDLIADAU	330 (ar gyfer y 100 unigolyn cyntaf) / 195 (o'r 101 unigolyn ymlaen)	Dyma gyfraniad at unrhyw gostau yr eir iddynt gan y sefydliad(au) wrth helpu unigolion i ymgymryd â lleoliad cyfnewid wyneb-yn-wyneb neu rithwir i mewn i Gymru ac allan ohoni. Mae cymorth i sefydliadau'n cael ei gyfrifo ar sail nifer y lleoliadau cyfnewid i mewn i Gymru ac allan ohoni fesul prosiect (wedi'i gyfrifo fesul unigolyn).
CYNHALIAETH ar gyfer:		Dyma gyllid (cyfraniad cost uned) sy'n seiliedig ar hyd y lleoliad cyfnewid a'r gyrchwlad. Os mai gweithgaredd cyfnewid cyfunol sydd dan sylw, bydd grant yn cael ei gyfrifo ar sail hyd a chyrchfan yr agwedd gorfforol ar y gweithgaredd cyfnewid yn unig.
UNIGOLION SY'N DDYSGWYR (cyfradd ddyddiol)	Cyfradd ddyddiol ar gyfer grŵp gwledydd 1 / 2 / 3:	Dyma gyllid sy'n cael ei gyfrifo fel cyfradd ddyddiol / wythnosol (=7 diwrnod) / misol (=28 diwrnod). Mae'n gyfraniad at gostau cyfnod dramor ar sail hyd y lleoliad cyfnewid a'r gyrchwlad.

Categori cyllidebol	AB ac AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfraddau ar gyfer y sector ADDYSG UWCH (£)	Disgrifiad o'r categori
		Nodyn ar Gyfnewidiadau Rhithwir: Ni fydd unigolion yn cael grant ar gyfer symudedd rhithwir (neu'r agwedd rithwir ar symudedd cyfunol). Fodd bynnag, bydd costau eraill gweithgareddau rhithwir yn gymwys (gweler Costau Uned Eraill isod).
pythefnos cyntaf (cyfradd ddyddiol)	109/94/80	**Nodyn ar gyfer Addysg Uwch:** Ni all gweithgaredd symudedd ar gyfer myfyriwr bara llai na phythefnos. Bydd y gyfradd ar gyfer y pythefnos cyntaf yn cael ei chynnwys wrth gyfrifo grant ar gyfer symudedd hirach.
2-8 wythnos (cyfradd ddyddiol)	76/66/56	
8 wythnos i 12 mis (cyfradd ddyddiol)	53/46/39	**Cyfiawnhad:** Mae'r gyfradd ddyddiol yn is ar gyfer lleoliadau cyfnewid tymor hwy, oherwydd credir y bydd yr opsiynau sydd ar gael o ran rhentu (y gallu i ddefnyddio cyfleusterau hunanarlwyo, er enghraifft) yn fwy economaidd. Mae'r cyfraddau uwch fel y'u nodir uchod yn gymwys i'r pythefnos a hefyd i'r 2-8 wythnos gyntaf o weithgaredd symudedd tymor hwy.
PERSON CYSYLLTIEDIG (cyfradd ddyddiol)	Yr un fath ag UNIGOLION SY'N DDYSGWYR	Dyma bobl sy'n gwmni i unigolion pan fydd angen er mwyn gofalu amdanynt a sicrhau eu diogelwch yn rhan o weithgaredd symudedd grŵp byrdymor dan arweiniad staff neu am resymau cyfiawn eraill.
UNIGOLION SY'N STAFF (cyfradd ddyddiol)		Mae'r dyfarniad yn gyfraniad tuag at gostau cynhaliaeth a gyfrifir fel cyfraniad cost uned, yn seiliedig ar hyd symudedd a chyrchfan. Disgwylir i sefydliadau sy'n fuddiolwyr ddilyn eu polisïau a'u prosesau ariannol sefydliadol ar gyfer ad-dalu treuliau teithio, gan gynnwys taliadau ar wariant a dderbynneb.
pythefnos cyntaf (cyfradd ddyddiol)	85/75/65	
2-8 wythnos (cyfradd ddyddiol)	60/50/40	

Categori cyllidebol	AB ac AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfraddau ar gyfer y sector ADDYSG UWCH (£)	Disgrifiad o'r categori
8 wythnos i 12 mis (cyfradd ddyddiol)	35 / 30 / 25	
YMWELIADAU PARATOADOL (cyfradd ddyddiol)	Yr un fath ag UNIGOLION SY'N STAFF	Ymweliadau cyn symudedd neu gymorth bugeiliol gan y sefydliadau anfon i gynnal asesiadau risg, sicrhau y bydd cyfranogwyr sydd ag anableddau a/neu anghenion addysgol arbennig yn gallu cael mynediad cyfartal a chymryd rhan ym mhob elfen o brosiect symudedd.
TEITHIO / TEITHIO GWYRDD	Pob unigolyn i bob gwlad: y gyfradd ar gyfer y band pellter perthnasol isod	Bydd cyllid ar gael i helpu i dalu costau teithio, a bydd swm y cyllid yn dibynnu ar y pellter rhwng y sefydliad sy'n anfon a'r sefydliad sy'n derbyn. Dyma gyfraniad at gost y daith i'r wlad ac yn ôl. Bydd grant teithio uwch ar gael i gyfranogwyr sy'n defnyddio opsiynau 'Teithio Gwyrdd' sy'n amgylcheddol gynaliadwy.
10 i 99km	20	**Nodyn ar gyfer Addysg Uwch:** Nid yw lleoliadau cyfnewid yn y DU yn gymwys o dan unrhyw amgylchiadau.
100 i 499km	150/180	
500 i 1,999km	230/270	
2,000 i 2,999km	300/350	
3,000 i 3,999km	450/520	
4,000 i 7,999km	700	
8,000 i 12,000km	1200	
12,000km+	1400	

Categori cyllidebol	AB ac AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfraddau ar gyfer y sector ADDYSG UWCH (£)	Disgrifiad o'r categori
CYMORTH O RAN CYNHWYSIANT		
Cyfranogwyr sydd ag **Anableddau** a/neu **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**	100% o'r costau cymwys	*Dyma gyllid ar gyfer unigolion sydd ag anawsterau dysgu neu anabledd sy'n golygu eu bod angen cymorth dysgu ychwanegol.* ***Sylwer:*** *Bydd cyfran o'r cyllid yn cael ei chadw'n ôl yn ganolog gan gorff gweithredol Taith wrth ddyfarnu'r grant, a bydd yn cael ei roi ar sail costau gwirioneddol pan y bydd y sefydliad yn nodi bod unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen cymorth ychwanegol angen y cymorth hwnnw.*
Cyfranogwyr o **gefndiroedd difreintiedig:** (costau teithio eithriadol a chyllid cynhaliaeth ychwanegol)	Cyfradd ddyddiol safonol wedi'i phennu ar lefel i fod yn gynhwysol	Mae'r diffiniad a'r meini prawf yn benodol i'r sector ac fe'u disgrifir yng Nghanllawiau Craidd y Rhaglen.
Cyfranogwyr sydd o **gefndiroedd difreintiedig:** Costau teithio drud eithriadol	100% o'r costau cymwys gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chostau teithio eithriadol	Costau teithio penodol, gan gynnwys costau fisa, pasbort, brechiadau, profion COVID-19, yswiriant iechyd, dillad addas a bagiau yn ôl yr angen. Mae costau teithio i ardal anghysbell ac yn ôl hefyd yn gymwys. Sylwer: Bydd cyfran o'r cyllid yn cael ei chadw'n ôl yn ganolog gan gorff gweithredol Taith wrth ddyfarnu'r grant, a bydd yn cael ei roi ar sail costau gwirioneddol pan fydd unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r cymorth ychwanegol sydd ei angen wedi'u nodi gan y sefydliad.

Categori cyllidebol	AB ac AHG, ADDYSG OEDOLION Cyfraddau ar gyfer y sector ADDYSG UWCH (£)	Disgrifiad o'r categori
COSTAU EITHRIADOL		
Costau teithio drud sy'n eithriad	80% o'r costau gwirioneddol, os nad yw'r swm gwreiddiol yn ddigon i dalu o leiaf 70% ohonynt	Dyma grant ar gyfer costau teithio i ardal anghysbell neu ohono (i'r rhai sy'n gymwys i gael grant teithio'n unig). Sylwer: Mae unigolion sydd o grwpiau difreintiedig yn gymwys i gael 100% o gostau gwirioneddol teithio drud eithriadol o dan 'costau teithio eithriadol', fel y nodir uchod.
Costau eithriadol sy'n gysylltiedig â COVID-19	100% o'r costau gwirioneddol	Costau sy'n cwmpasu costau sy'n eithriad ac sy'n gysylltiedig â Covid, yn benodol lle mae statws y wlad gyrchfan yn newid yn ystod symudedd, gan achosi i'r cyfranogwr fynd i gostau ychwanegol sylweddol oherwydd gofyniad i hunanynysu mewn cyfleuster pwrpasol, neu i gydymffurfio â gofynion profi uwch neu debyg.
CYFRADDAU GRANT ERAILL		
Ffioedd cwrs / hyfforddiant (pob cyfranogwr)	40 fesul unigolyn fesul diwrnod, hyd at 400 fesul yr un unigolyn mewn un cytundeb grant	Dyma gyllid ar gyfer ffioedd cyrsiau a hyfforddiant yn rhan o leoliadau cyfnewid staff i hyfforddi / datblygu'n broffesiynol yn barhaus dramor, ffioedd cyrsiau ysgol haf, costau cyfleoedd i weithio dros yr haf a chostau cyfleoedd i wirfoddoli dramor.
Costau datblygu lleoliadau cyfnewid rhithwir	Hyd at 1,200 fesul cytundeb grant	Dyma gyfraniad at y gost o ddatblygu a / neu gynnig lleoliadau cyfnewid rhithwir o ansawdd uchel.

Rhaglen sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru yw Taith. Mae'n cael ei harwain gan International Learning Exchange Programme (ILEP) Ltd, corff gweithredol Taith sy'n un o is-gwmnïau Prifysgol Caerdydd.

© 2022 ILEP Ltd